CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
National Assembly for Wales

# CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD
# CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL Y GANGEN

**Dyddiad y cyfarfod:** Dydd Mawrth 30 Tachwedd 2010

## COFNODION

**Yn bresennol:**
Janet Ryder AC, Cadeirydd
Jeff Cuthbert AC
Mohammad Asghar AC
Darren Millar AC

Natalie Drury-Styles, Rheolwr Gwasanaethau Allgymorth a Chysylltiadau Rhyngwladol
Al Davies, Ysgrifenyddiaeth y Gangen

<u>Eitem ychwanegol:</u>
**Darren Millar AC - Adroddiad llafar ar drydedd Cynhadledd Seneddol Ryngwladol y CPA ar Newid yn yr Hinsawdd.**

Gwahoddwyd Darren Millar i roi adroddiad llafar byr ynghylch y ffaith iddo fynd i'r gynhadledd uchod i gefnogi'r adroddiad ysgrifenedig a gyflwynwyd yn flaenorol (**DOC 6)** ac atebodd gwestiynau gan Aelodau Pwyllgor Gweithredol y Gangen am y gynhadledd.

Diolchodd Darren am gael y cyfle i fynd i'r gynhadledd ac, ar y cyfan, cafwyd ei bod yn ddiddorol ac yn fuddiol.

Cyfeiriodd Darren at nifer o'r agweddau cadarnhaol ar y gynhadledd, gan gynnwys y seminarau a'r sesiynau a aeth iddynt ar drafnidiaeth, y cysylltiad rhwng iechyd a newid yn yr hinsawdd, gweithio gyda grwpiau ffydd, a'r ymweliad â Phentref Mileniwm Greenwich, y cyfeiriodd atynt yn ei adroddiad. Roedd y gynhadledd wedi cael effaith arno o ran y potensial ar gyfer sicrhau ymgysylltu ehangach â'r

gymdeithas ddinesig ar newid yn yr hinsawdd.

**Cam i'w gymryd**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i gyflwyno adborth Darren Millar i Gangen y DU o'r CPA ar bwysigrwydd sicrhau bod yr Aelodau'n parhau i fynychu'r Cynadleddau Seneddol Rhyngwladol a hefyd i ofyn pryd y bydd y Pecyn Cymorth ar Newid yn yr Hinsawdd ar gael.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Cafwyd ymddiheuriadau gan Eleanor Burnham AC a Rosemary Butler AC, Is-lywydd y Gangen.

**2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF - papur CPA 04-10M**
Cytunodd yr aelodau a oedd yn bresennol ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**3. MATERION YN CODI O'R COFNODION**
Roedd pedwar pwynt gweithredu yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf, ac ymdriniwyd â phob un ohonynt.

**4. AROLWG O'R GWEITHGAREDDAU DIWEDDAR**

**Adborth a gwybodaeth am ddigwyddiadau a chynadleddau diweddar**

- **Seminar Llywodraethiant Rhyngwladol Cangen y DU o'r CPA - 23.11.2010**

Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth gyffredinol am y seminar hwn, a gynhaliwyd yn y Pierhead yn ystod yr wythnos flaenorol. Roedd y sesiynau a gynhaliwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Seneddwyr y Gymanwlad yn cynnwys cyflwyniad ar Ddatganoli a'r Cynulliad Cenedlaethol gan Dianne Bevan a chyflwyno safbwynt gwleidyddion mewn sesiwn holi ac ateb trawsbleidiol a gadeiriwyd gan Gadeirydd y Gangen, gyda Kirsty Williams AC, Jocelyn Davies AC, John Griffiths AC a Mohammad Asghar AC yn cymryd rhan. Adroddodd y Cadeirydd y cafwyd nifer o ddadleuon bywiog a chwestiynau ystyriol a bod adborth cadarnhaol wedi dod i law gan drefnwyr Cangen y DU o'r CPA. Roedd yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn y Seminar.

**Ymweliadau diweddar i / gan Wledydd y Gymanwlad**

- **Adroddiad llafar byr gan y Cadeirydd ar yr ymweliad i roi cyflwyniad i Gangen yr Alban o'r CPA ar Faterion Gweithgor y CPA - 11.11.2010**

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau ei bod wedi ymweld â Changen yr Alban o'r CPA i drafod Papur Materion Gweithgor y CPA. Roedd Aelodau Cangen yr Alban a oedd yn bresennol yn awyddus i drafod y materion hyn yn fanwl. Disgwylir ymateb ffurfiol gan Gangen yr Alban ar y Papur Materion erbyn diwedd y flwyddyn.

## 5. BLAEN-GYNLLUNIO

**<u>Cynadleddau/cyfarfodydd arfaethedig</u>**

- **Cyfarfod Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) i drafod Materion Gweithgor y CPA, San Steffan - 14.01.2011**

  Hysbysodd y Cadeirydd y Gangen fod cyfarfod cyffredinol blynyddol gwreiddiol y BIMR wedi'i ohirio nes Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Llundain ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, gan fod nifer o ganghennau wedi dangos diddordeb mewn cynnal cyfarfod ffurfiol o'r Rhanbarth i drafod materion sy'n ymwneud â'r Gweithgor, bydd cyfarfod yn cael ei drefnu yn Llundain ar 14 Ionawr at y dibenion hyn. Gofynnwyd i Jeff Cuthbert AC fynd i'r cyfarfod hwn fel cynrychiolydd cangen Cymru o'r CPA ac roedd yn falch o wneud hynny pe bai ei ddyddiadur yn caniatáu hynny.

- **Cyfarfod Cadeirydd y Gangen â John Griffiths AC, y Cwnsler Cyffredinol, ynghylch y cysylltiadau presennol a'r rhai yn y dyfodol rhwng Cymru ac Uganda - 18.01.2011**

  Hysbysodd y Cadeirydd y Gangen ynghylch y cyfarfod hwn â John Griffiths AC, y Cwnsler Cyffredinol, Jon Townley o raglen Cymru o Blaid Affrica y Llywodraeth a sefydliadau allanol sydd â chysylltiadau gweithredol ag Uganda, a fyddai'n trafod ffyrdd o gryfhau a datblygu'r cysylltiadau rhwng y ddwy wlad.

- **Cyfarfod Gweithgor y CPA, Yukon (Canada) - Chwefror 2011**

  Nid oedd unrhyw wybodaeth bellach am y cyfarfod hwn

- **Cynhadledd Llywodraeth Leol y Gymanwlad Caerdydd 15-18 Mawrth 2011**

  Nid oedd unrhyw wybodaeth bellach am y gynhadledd hon.

**Digwyddiadau arfaethedig**

- **Diwrnod y Gymanwlad, 14.03.2011**
  **Gwahoddiad i enwebu dau berson ifanc i gynrychioli Cangen Cymru yn San Steffan.**

  Ni thrafodwyd hyn. (Nodyn: Yn y cyfamser, penderfynwyd y byddai'r Gangen yn gofyn i'r Ddraig Ffynci enwebu dau o bobl ifanc i gynrychioli Cangen Cymru o'r CPA yn nathliadau Diwrnod y Gymanwlad yn San Steffan).

  **Cam i'w gymryd**: Bydd Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn cysylltu â'r Ddraig Ffynci i wneud y cais hwn.

  **Derbyniad gyda'r nos yn y Senedd**

  Ni thrafodwyd hyn.

**Ymweliadau arfaethedig – Wedi'u trefnu a'u cynnig**

- **Ymweliad Cadeirydd y Gangen i gyfarch Cangen Gogledd Iwerddon o'r CPA 13.12.2010**
  Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n ymweld â Stormont i drafod Materion Gweithgor y CPA gydag Aelodau Gogledd Iwerddon o'r CPA, fel y gwnaeth yn ddiweddar gyda Changen yr Alban.

- **Ymweliad gan gynrychiolwyr o Gangen Canada o'r CPA, 11-19 Mawrth 2011**

  Ni thrafodwyd hyn.

**6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Dydd Mawrth 25.01.2011.

**7. EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FUSNES ARALL**

**Papurau i'w nodi/cymeradwyo:**

- Adroddiad Cadeirydd y Gangen ar Gynhadledd Seneddol y Gymanwlad 2010, Nairobi, Kenya (**DOC 2**)
- Adroddiad ar ymweliad Cangen Cymru o'r CPA â Kampala, Uganda (**DOC 3**)
- Wythfed Seminar Seneddol Canada, Ottowa - Adroddiadau yn dilyn y gynhadledd gan Veronica German AC ac Alun Davies AC (**DOCs 4 & 5**)

Ni thrafodwyd hyn. (Nodyn: Cymeradwywyd y papurau hyn yn y

cyfamser).

**<u>Cam i'w gymryd</u>**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i gomisiynu cyfieithiad o'r adroddiadau a'u cyhoeddi ar dudalennau'r Gangen ar y we.

**<u>Llywodraethiant y CPA</u>**

- **Cyflwyniad Cangen y DU o'r CPA i Grŵp Unigolion Enwog y Gymanwlad**

  Trafodwyd y papur hwn yn fyr. Dymunai Cangen y DU o'r CPA ailgyflwyno hwn fel cyflwyniad Rhanbarthol ac roedd wedi gofyn i'r Canghennau drafod hyn.

  **<u>Cam i'w gymryd</u>**: Ysgrifenyddiaeth y Gangen i hysbysu Cangen y DU o'r CPA ynghylch safbwynt Cangen Cymru ar hyn erbyn y dyddiad terfyn a bennwyd, sef 17 Rhagfyr.

- **Llythyr gan Gyd Lywyddion Cangen Awstralia o'r CPA at yr Ysgrifennydd Cyffredinol**

  Cyfeiriodd y Cadeirydd at y llythyr hwn gan Gangen Awstralia o'r CPA a nododd yn benodol ei phenderfyniad i leihau nifer y cynrychiolwyr y byddai'n eu hanfon i gynrychioli'r Gangen yng Nghynadleddau Seneddol y Gymanwlad yn y dyfodol yn sylweddol ac y byddai hynny'n arwain at ostwng ffioedd tanysgrifio ei haelodau.